**PREIFAT A CHYFRINACHOL**

BWRDD(22-12)Cofnodion

**Cyfarfod o Fwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 460 a gynhaliwyd yn Swyddfa S4C, Caernarfon

11.15, 8 Rhagfyr 2022

---

**Cofnodion**

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) |
| Adele Gritten | AdG | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) – yn rhithiol |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) – yn rhithiol |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) – yn rhithiol |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) – yn rhithiol |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) |
| Bethan C. Williams | BCW | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Sharon Winogorski | ShW | (Prif Swyddog Cyllid) – yn rhithiol, ar gyfer eitem 3 |
| Elinor Price | EP | (Rheolwr Cyllid) – yn rhithiol, ar gyfer eitemau 3.1 tan 3.5 |
| Angharad Thomas | AT | (Uwch Swyddog Materion Busnes) – yn rhithiol, ar gyfer eitemau 3.1 tan 3.5 |
| Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | | |

---

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad pellach gan y DCMS mewn perthynas â phenodi aelodau newydd i'r Bwrdd.<br><br>Roedd nifer o'r aelodau anweithredol wedi ymweld â Stiwdio Aria yn Llangefni'r diwrnod blaenorol. Yn ogystal ag ymweld â'r cyfleuster newydd, bu cyfle i ymweld â setiau Rownd a Rownd, a chwrdd gyda'r tîm cynhyrchu. Cytunwyd y bu'n ymweliad buddiol a diddorol tu hwnt. | |
| **2** | **Penodi Aelod Annibynnol Arweiniol**<br><br>Anita George oedd yn gwasanaethu fel Aelod Annibynnol Arweiniol y Bwrdd Unedol hyd nes i'w thymor ar y Bwrdd ddod i ben ar ddechrau Gorffennaf 2022. Roedd y DCMS yn awr yn awyddus i'r Bwrdd benodi aelod newydd i'r swyddogaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd GP felly wedi cysylltu gyda'r aelodau anweithredol i holi pwy fyddai â diddordeb mewn ymgymryd â swyddogaeth yr Aelodau Annibynnol Arweiniol. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cael sgwrs gyda CJ ynghylch y swyddogaeth, ac roedd CJ wedi cydsynio i ymgymryd â'r dyletswyddau pe byddai'r Bwrdd yn dymuno.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd penodi Chris Jones fel yr Aelod Annibynnol Arweiniol, ac i hysbysu'r DCMS o'r penodiad hwn.** | **GP** |
| 3 | [Ymunodd ShW, EP ac AT â'r cyfarfod]<br><br>**Siâp Cyllideb 2023–24 (a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny)**<br><br>Roedd disgwyl i chwyddiant barhau i gael effaith ar gyllidebau S4C dros y cyfnod nesaf – yn enwedig gan na fydd cynnydd yn yr incwm o ffi'r drwydded tan 2024–25. Roedd y Tîm Rheoli felly wedi bod yn asesu goblygiadau hynny i gyllidebau S4C dros y cyfnod nesaf, ac wedi amlinellu opsiynau posib er mwyn ymateb i'r wasgfa ariannol.<br><br>Amlinellodd SD y prif opsiynau oedd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad. Wrth wneud hynny, pwysleisiodd mai bwriad y Tîm Rheoli oedd ceisio cadw at yr un dyraniad gwariant â'r hyn gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai hyn yn golygu parhau i wario tua'r un ganran o'n hincwm ar gynnwys, a sicrhau nad yw gwariant ar orbenion yn cynyddu fel canran o gyfanswm ein gwariant.<br><br>Nodwyd mai amlinelliad o opsiynau oedd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gyfforddus gyda'r trywydd posib. Byddai gwaith manwl yn cychwyn wedi i'r Tîm Rheoli dderbyn adborth gan y Bwrdd, fyddai yn ei dro yn arwain at gyflwyno Cyllideb 2023–24 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yn y gwanwyn.<br><br><u>Costau Cynnwys</u><br><br>Cyflwynodd EP ac AT y dashfwrdd newydd maent wedi ei ddatblygu ar gyfer monitro gwariant ar gynnwys. Adroddwyd fod cyfarfodydd cyson bob pythefnos sydd yn rhoi golau gwyrdd i unrhyw gynhyrchiad newydd, a bod y dashfwrdd yn cael ei ddiweddaru wedi hynny i adlewyrchu'r penderfyniadau a gymerir.<br><br>Yn unol â Strategaeth 2022, y bwriad oedd blaenoriaethu'r genres drama, plant a chwaraeon dros y cyfnod nesaf. Roedd y dashfwrdd felly'n cynnig cyfle i gael trosolwg ar beth sy'n cael eu comisiynu oddi fewn i'r genres hynny, ynghyd â'r gwariant ar y genres eraill. Nodwyd hefyd bwysigrwydd cael digon o amrywiaeth o fewn yr amserlen, gan sicrhau cydbwysedd cywir, asesu pa blatfformau a hefyd angen ystyried hyblygrwydd o ran sicrhau cynnwys cyflym, gan geisio gwneud hyn i gyd o fewn y gyllideb.<br><br>[Gadawodd EP ac AT y cyfarfod]<br><br><u>Costau Eraill</u><br><br>Roedd y Tîm Rheoli hefyd wedi ystyried pa opsiynau y gellid eu hystyried ar gyfer rheoli gwariant ar gostau gweithredu a gweinyddu mewnol. Amlinellwyd yr agweddau perthnasol o'r adroddiad, oedd yn cynnwys lleihau teithio diangen a gwneud gwell defnydd o'r gofod sydd gennym yn ein swyddfeydd.<br><br>Cytunwyd bod hi'n bwysig dangos bod S4C yn cymryd camau addas i leihau ein gwariant yn fewnol cyn holi'r sector i geisio adnabod arbedion.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y trywydd a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn i'r gwaith manwl ar ddatblygu Cyllideb 2023–24 gychwyn.**<br><br>[Gadawodd ShW y cyfarfod] | SD |
| 4 | **Cyngerdd Cymru i'r Byd, Efrog Newydd**<br><br>Yn dilyn darlledu'r gyngerdd fis Tachwedd, roedd RhW wedi holi am adroddiad ar amryw o elfennau yn ymwneud â'r rhaglen, gan gynnwys amcanion y gyngerdd, y gynulleidfa darged, a'r ystyriaethau cynhyrchu. Roedd SD wedi llunio adroddiad yn ymateb i'r cwestiynau a godwyd.<br><br>Adroddwyd i bawb oedd yn bresennol yn Efrog Newydd fwynhau'r noson, ac i S4C ffurfio cysylltiadau gyda chynhyrchwyr rhyngwladol fel Disney yn dilyn eu presenoldeb yn y gyngerdd. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd y darllediad yng Nghymru wedi cynnig yr un profiad i'r gynulleidfa adref. | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Datganiad Polisi ar Gyfraniad Cymdeithasol S4C**<br><br>Cyflwynodd GP ei adroddiad, oedd yn cynnwys drafft o Bolisi ar Gyfraniad Cymdeithasol S4C. Roedd y Pwyllgor Cyfathrebu eisoes wedi ystyried y drafft ar 01 Rhagfyr 2022, ac wedi cynnig adborth.<br><br>Roedd y papur yn amlinellu'r cefndir, y broses a ddilynwyd i lunio'r drafft, ac yn ceisio crynhoi'r hyn mae S4C yn ei wneud yn barod. Wrth lunio'r drafft, roedd GP wedi trafod gydag ITV ac STV oedd wedi llunio polisïau tebyg yn ddiweddar. Eu cyngor oedd y dylai S4C adnabod rhyw bedwar o flaenoriaethu er mwyn adnabod ein gweithgareddau craidd, a mesur ein llwyddiant. Yn ogystal ag awgrymu'r blaenoriaethau hyn – oedd yn adleisio Strategaeth 22 – roedd yr adroddiad yn argymell mesuryddion a threfniadau adrodd.<br><br>Croesawyd y polisi drafft, ac fe awgrymodd CJ y dylai'r elfen 'creu gwerth' fod yn fwy amlwg ymysg y blaenoriaethau. Teimlai hefyd na ddylid gosod targed ariannol o ran buddsoddi mewn cwmnïoedd eraill trwy S4C Masnachol.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Datganiad Polisi drafft, gyda'r diwygiadau a grybwyllwyd yn ystod y drafodaeth.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>GP |
| **6** | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r cynlluniau a'r cyfarfodydd oedd wedi digwydd dros y cyfnod – gan gynnwys Ymgyrch yr Hydref, a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng S4C a Chymraeg 2050 (is-adran o Lywodraeth Cymru).<br><br><u>Datganiadau i'r Wasg</u><br><br>Roedd DLP yn awyddus i ddechrau derbyn copïau o ddatganiadau i'r wasg y mae S4C yn eu cylchredeg. Esboniodd GP ei fod yn derbyn copïau o rai datganiadau ac yn eu rhannu os ydynt yn debygol o fod o ddiddordeb i aelodau'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: GP i holi am gopïau o bob datganiad i'r wasg a gylchredir gan S4C, er mwyn rhannu'r rhai perthnasol gydag aelodau'r Bwrdd.**<br><br><u>Mesur y Cyfryngau</u><br><br>Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, roedd EM wedi cymryd cyngor cyfreithiol allanol ar y newidiadau i bwrpas statudol S4C yn y Mesur Cyfryngau arfaethedig. Roedd bellach wedi derbyn cyngor y Cwnsler, ac wedi rhannu copi gydag aelodau'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Ar sail cyngor y Cwnsler, i gadarnhau i'r DCMS ein bod yn gyfforddus gyda'r newidiadau arfaethedig, ond ein bod yn awyddus i gynnwys nodiadau esboniadol addas.** | GP<br><br>EM |
| **7** | **Diwygiadau i'r Weithdrefn Gwyno**<br><br>Roedd GP wedi adolygu Gweithdrefn Gwyno bresennol S4C, ac yn argymell diwygiadau i adlewyrchu'r ffyrdd newydd o weithio'n fewnol sy'n rhoi'r pwyslais ar gyhoeddi cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau.<br><br>Byddai'r fersiwn newydd yn gwneud hi'n gliriach bod y weithdrefn ar gyfer ystyried cwynion ynghylch cynnwys S4C (sydd wedi ei gyhoeddi gan S4C ar unrhyw lwyfan), ac ar gyfer cwynion eraill (nad ydynt yn ymwneud â'r cynnwys). Ar yr un pryd, roedd argymhelliad i osod terfynau amser ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad, a chysoni teitlau swyddi.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Weithdrefn Gwyno newydd, i'w chyhoeddi ar wefan S4C.** | GP |
| **8** | **Diweddariad ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol**<br><br>Adeg COP26 yn Glasgow y llynedd, arwyddodd S4C yr Addewid Cynnwys Hinsawdd ar y cyd gydag 11 o ddarlledwyr eraill. Mae'r addewid hwn yn cydnabod bod gan deledu a ffilm rôl a chyfrifoldeb unigryw i gynorthwyo cynulleidfaoedd i ddeall ffyrdd o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.<br><br>Gellir rhannu gwaith cynaliadwyedd amgylcheddol S4C i dair cainc: gwreiddio themâu hinsawdd a chynaliadwyedd drwy ein cynnwys, sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn flaenoriaeth wrth gynhyrchu, a gwneud popeth y gallwn fel corff i gadw ein heffaith amgylcheddol mor isel â phosibl. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd GE yr adroddiad, oedd yn darparu diweddariad byr ar gynaliadwyedd drwy ein cynnwys ac wrth gynhyrchu, a sut mae S4C yn gwireddu ein hymrwymiad i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd.<br><br>Croesawyd yr adroddiad, a dwedodd DLP ei bod yn awyddus i weld cyfres o bolisïau corfforaethol sy'n gyson a'i gilydd yn cael eu datblygu i gwmpasu gwaith S4C yn y maes hwn. Esboniwyd y byddai hyn yn un o gyfrifoldebau'r Pennaeth newydd fyddai'n cael ei benodi i arwain ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol, a Llywodraethu Corfforaethol (ESG). | |
| **9** | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 459 y Bwrdd (a gynhaliwyd 20.10.22), a Chofnodion y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd.<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgorau canlynol er gwybodaeth:<br>• Pwyllgor Archwilio a Risg (gynhaliwyd 17.11.22)<br>• Pwyllgor Cyfathrebu (gynhaliwyd 01.12.22) | |
| **10** | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| **11** | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |

**Llofnod:______________________________ Dyddiad: ______________________**